Cyngor Cymuned Llandwrog
Community Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor
Council Minutes

17 Medi 2018 / 17 September 2018

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 17 Medi 2018 yn Canolfan y Fron.

Minutes of the Full Council Meeting held Monday evening, 17th of September 2018 at Canolfan Y Fron.

Yn bresennol / Present - 10 aelod / members

Yn cynrychioli Ward y Fron – Representing the Ward of Fron
Cyng. Gwyn Owen Jones

Yn cynrychioli Ward Carmel –
Cyng. Helen Hughes; Cyng. Bryn Williams

Yn cynrychioli Ward Y Groeslon – Representing the Ward of Y Groeslon
Cyng. Alun Wyn Jones; Cllr. Eddie Willcox; Cyng. David C Davies; Cyng. Gerwyn Owen; Cyng. Robert Jones; Cyng. Hywel J Owen

Yn cynrychioli Ward Llandwrog a Dinas Dinlle - Representing the Ward of Llandwrog & Dinas Dinlle
Cyng. Clive Bayley;

Hefyd yn bresennol / Also in Attendence-

David Roberts, Clerc y Cyngor / Council Clerk
Huw Roberts , Cyfieithydd / Translator

18-09-01 **1 Croeso'r Cadeirydd / *Chairman's Welcome***

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Gwyn Owen Jones. Braf iawn oedd cael cynnal y cyfarfod yng Nghanolfan y Fron. Yr adeilad a safon y gwaith yn syfrdanol. Mynegwyd pob llwyddiant i'r Ganolfan. 'Roedd y Cyngor hwn yn gwerthfawrogi cyfraniad pob aelod o'r pwyllgor sydd wedi gweithio'n galed iawn ar y fenter.

Dywedodd fod Dai Lloyd Evans, un o gyfarwyddwyr y Ganolfan, yn fodlon tywys yr aelodau o gwmpas y Ganolfan wedi i'r Cadeirydd gloi'r cyfarfod ar y noson.

Trist iawn oedd mynegi cydymdeimlad y Cyngor i deulu Selwyn (Sel) Jones, 1 Dol Meredydd, Llandwrog a fu farw Awst 15, 2018. Sel wedi bod yn gontractwr ffyddlon ac wedi cyflawni gwaith da iawn i'r Cyngor Cymuned dros flynyddoedd maith yn cynnal mynwentydd a llwybrau ein cymuned. Bydd colled fawr ar ei ôl. Clerc wedi anfon cerdyn o gydymdeimlad i deulu Sel.

Croesawodd Cyng. Helen Hughes i'r cyfarfod yn dilyn cyfnod o salwch ac arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar. 'Roedd yr aelodau oll yn ategu geiriau'r Cadeirydd.

Aeth ymlaen at y rhaglen.

The meeting was opened by the Chairman, Cllr.Gwyn Owen Jones. He welcomed all. He thankd Dai Lloyd Evans for his welcome to the Ganolfan. He thanked all who was involved with the Ganolfan for their endevours and wished them well.

He also welcomed Cllr Helen Hughes after her period of sickness and wished her well.

Huw Roberts, the translator was also welcomed

18-09-02 **2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb / *Apologies for Absences***

Cyng. . Alan Patterson; Cyng. David M Lewis

Seddi gwag,

Adroddwyd ân y Clerc
Ward Llandwrog
Adroddwyd fod yna sedd yn ward Llandwrog yn parhau yn wag. Clerc gyda dau enw dan sylw.
Ward Y Fron
Cyng. David Lewis yn datgan ei fod yn ystyried ymddiswydo oherwydd pwysau gwaith. Clerc heb gael cadarnhad ysgrifenedig, Unwaith daw i law bydd angen rhoi gwybod I Cyngor Gwynedd I hysbysebu'r sedd yn y drefn arferol.
Cllr. David Lewis has stated his intention to resign his seat. He will confirm this in writing soon. Clerk to inform the Electoral Officer at Gwynedd Council who will advertise the vacancy in the usual manner

---

18-09-03 **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar y Unrhyw Eitem ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 - *To Receive isclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000***

Cyng. Gwyn Owen Jones - eitem 18-09-35. Treuliau / Travel allowance
David Roberts, Clerc – Eitem Panel Gwaith y Clerc./ Clerks Panel

---

18-09-04 **4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd 16 Gorffennaf 2018 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Previous Meeting held on the 16 July 2018 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-09-05 **5 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

18-09-06 **Toiled Y Marine, Dinas Dinlle / The Marine Toilet Dinas Dinlle**

Adroddwyd gan y Clerc bydd angen i'r Cyngor ystyried sefyllfa 2019-20. Bydd Pwyllgor Cyllid y Cyngor yn cychwyn ar y gwaith o sefydlu cyllideb 2019-20 yn fuan.

HJO - dim ond un opsiwn realistig gellir ei ystyried os mai'r dymuniad yw cadw'r toiled ar agor sef cadw at y trefniant presennol o gyfrannu £4,000 yn flynyddol neu beidio cyfrannu o gwbl. NId oes gan y Cyngor hwn yr arbenigedd i ystyried unrhyw opsiwn arall.

EW – yn cytuno gyda HJO.

HH - yn gryf o'r farn y dylai Gynghorau cyfagos gyfrannu. Cyngor wedi trafod y mater eisoes ac wedi gwrthod yr awgrym.

Penderfynwyd cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Cyllid i'w ystyried wrth sefydlu cyllideb 2019-20
Resolved – to refer the matter to the Finance Committee to consider when establishing the 2019-20 praecept

18-09-07 **Delwedd Dyffryn Nantlle-**

Clerc yn datgan i'r aelodau ei fod yn hynod o bwysig i'r Cyngor gael cynrychiolaeth ar y pwyllgor gan fod Uwch Swyddogion Adran Priffyrdd ac Amgylchedd Cyngor Gwynedd yn bresennol. Dyma gyfle felly i aelodau godi materion yn uniongyrchol gyda'r swyddogion megis- gordyfiant heolydd/diffyg torri gwair, plastigion yn y pentrefi, baw cwn a diffyg gwagio biniau, chwyn yn tyfu ar heolydd, diffyg glanhau strydoedd ein pentrefi, safon y gwasanaeth bysus.

Cyng. Helen Hughes a Cyng. Hywel J Owen sydd wedi ei enwebu i gynrychioli'r Cyngor.

Gofynnodd HH am restr o'r materion sydd angen dod i sylw'r pwyllgor.

Penderfynwyd gofyn i'r aelodau anfon unrhyw faterion sydd angen sylw'r Pwyllgor trwy law'r Clerc
Resolved – to ask members to send any relevant matters that need to be brought to the attention of the Group to the Clerk

18-09-08 **Hen Ysgol Carmel**

Cynllunio
Aelodau yn hynod siomedig nad oes cais cynllunio wedi cyrraedd i drosi'r adeilad i annedd. Adran Gorfodaeth y Cyngor Sir yn cyflenwi ei dyletswyddau.

Adroddwyd gan y Clerc ei fod wedi cysylltu sawl tro gyda'r Adran Gynllunio, ond heb gael esboniad pam fod y perchennog yn byw yno heb hawl cynllunio.

Adroddwyd gan HH fod yr ysgol ar werth. Hysbys yn awgrymu fod yr adeilad yn cysgu wyth o bobol. Yn gofyn sut gellir gwneud y datganiad hwnnw heb hawl cynllunio?

Penderfynwyd cysylltu gyda'r Adran Gynllunio gan nodi ein siom o'r diffyg gweithredu gan ofyn am esboniad llawn.
Resolved – to write to the Planning Deoartment stating that this Council is concerned abut the situation and asking for a full explaniation

18-09-09 **Cae Pêl droed Carmel a Fron**

Adroddwyd fod arwyddion "DIM CWN" wedi ei gosod yng nghaeau Carmel ar Fron.

Yr arwyddion yng Ngharmel yn llwyddiannus - dim olion baw cwn yn y cae bellach.

Cafwyd cadarnhad gan Gyngor Gwynedd (Adran Stadau) nad oes gan berchennog yr ysgol yr hawl mynediad o'r iard yr ysgol i'r cae.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth
Resolved – to accept the information

Trafodwyd cyflwr gwael giât mynediad i gae pêl-droed y Fron.
Penderfynwyd cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo..
Resolved – to refer the matter to the Cemeteries & Property Committee

18-09-10 **Panel Ymgysylltu**
Dim ond un pris a ddaeth i law'r Clerc. Gwahoddwyd tri chwmni.
Penderfynwyd derbyn pris Cwmni Celyn.
Resolved – to accept the price from Cwmni Celyn

18-09-11 **Lloches Bws Carmel** –
Adroddwyd fod y Clerc wedi cyfarfod ar y safle gyda Phensaer.

I gyflawni gwaith dylunio roedd y gost yn £****** ynghyd a £***** ychwanegol gan QS.
Barn y pensaer oedd y byddai'n llawr rhatach i ail-leoli'r lloches o'r cornel ac i ganol y palmant rhwng y Coleg a'r hen bost.

'Roedd y pensaer yn rhagweld y gallai'r gost o'i ail leoli ar y safle presennol fod oddeutu £8,000 i £10,000. Byddai ei ail-leoli yn y canol yn costio llawer llai i oddeutu £3,000

Roedd pris y pensaer yn cynnwys cynlluniau ar gyfer y ddau opsiwn.
Penderfynwyd cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo.
Resolved – to refer the matter to the Cemeteries & Property Committee

18-09-12 **Cerrig Goffa Bryn'rodyn a Brynrhos / Memorial Headstone Bryn'rodyn & Bryn'rhos Chapels, Groeslon**

Adroddwyd gan y Clerc fod disgwyl i Gwmni Inigo Jones gyflawni'r gwaith. Yn anffodus oherwydd prysurdeb tydi'r cwmni methu a chyflawni'r gwaith am ychydig wythnosau
Penderfynwyd derbyn y wybodaeth
Resolved – to accept the information

18-09-13 **Gwaith Wedi Ei Archebu.**
Cafwyd diweddariad gan y Clerc ar y canlynol-

- Clirio Coed a Gordyfiant Mynwentydd Bryn'rodyn a Llandwrog - Ifan Williams yn bwriadu cwblhau'r gwaith yn ystod Medi a Hydref
- Arolwg Cerrig Beddi Fynwent Llandwrog - gwaith yn llithro i fis Ionawr oherwydd bod yr ymgymerwr yn cael llaw driniaeth yn fuan.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth
Resolved – to accept the information

18-09-14 **Tan ar y Comin**
Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu gyda Rhys Owen o Barc Cenedlaethol Eryri. Cafwyd cadarnhad fod y Parc wedi darparu cais grant i Lywodraeth Cymru am £400,000 ar gyfer tir comin Uwch Gwyrfai. Rhan o'r gwaith fydd rheoli gordyfiant ar y comin i atal tannau.

Daw Rhys Owen mewn cysylltiad unwaith y bydd y grant wedi ei gadarnhau. Bydd angen trefnu cyfarfod gyda'r Frigâd Dan, Cymdeithas y Porwyr a'r Parc.

Sylwadau Aelodau –
EW - yn ymddangos nad oes cynllun/strategaeth rheoli'r gordyfiant mewn lle gan y Parc.
AWJ - angen cyfarfod gyda'r Frigâd Dan, Cymdeithas y Porwyr a'r Parc waeth bynnag beth fydd sefyllfa'r grant.

BW - cefnogi'r syniad o gael cyfarfod. Eithin wedi tyfu yn uchel iawn ar dir comin yn y Bryn, y arbennig ger Pentrosglwyn. Wedi datgan sawl troi'r Weinidogaeth Amaethyddol yng Nghaernarfon fod y syniad o dalu porwyr i beidio pori'r mynydd yn golygu fod eithin yn gordyfu allan o reolaeth. Yn bryderus iawn am y sefyllfa.

Penderfynwyd derbyn y wybdaeth a disgwyl hyd nes y bydd Rhys Owen o Barc Cenedlaethol Eryri yn cysylltu
Resolved – to accept the information and wait for until Rhys Owen from the National Park confirms the situation regarding the grant application

18-09-15 **Diffyg Safle Chwarae yn Y Groeslon / Lack of Playing Area In Groeslon**

Derbyniwyd diweddariad gan aelodau o'r Groeslon -

AWJ - adroddwyd fod Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd wedi ymweld y safle cyn gwyliau'r Haf. Addawyd cyflogi ymgymerwr i gynnal y gwaith.

GO - gwaith wedi cychwyn. Yr hen wair wedi ei ladd. Pridd newydd wedi ei arllwyso ar ben yr hen bridd sâl. Y wyneb wedi ei hadu. Gwair newydd yn tyfu.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a monitro'r sefyllfa
Resolved – to accept the information and monitor tge situation

---

18-09-16 **6 Derbyn Cofnodion y Gweithgor y Clerc a Gynhaliwyd 13 Medi 2018 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Clerks Working Group held on 13 September 2018 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-09-17 **7 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

18-09-18 **Swydd Ddisgrifiad / Job Description**

Penderfynwyd derbyn argymhellid y Gweithgor fel a ganlyn -
i) Fod y Cyngor yn newid teitl y swydd i "Rheolwr Gweinyddiaeth a Chyllid"
ii) Fod y Cyngor yn derbyn y Swydd Ddisgrifiad sydd wedi ei ddiweddaru

Resolved to accept the Working Groups recommendation as follows -
i) That the Council changes the title to " Administration & Finance Manager"
ii) That the Council approves the job description as amended

Cytundeb Gwaith y Rheolwr Gweinyddol a Chyllid / The Administration & Finance Manager Clerks Contract of Employment

Penderfynwyd derbyn argymhellid y Gweithgor -
Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r Cytundeb Gwaith sydd wedi ei ddiweddaru

Resolved to accept the Working Groups recommendation as follows -
That the Council approves the contract of employment as amended.

18-09-19 **Cyflog y Rheolwr Gweinyddol a Chyllid / The Administration & Finance Manager Salary**

Penderfynwyd derbyn argymhellid y Gweithgor -
i) Fod y Cyngor yn derbyn y bydd y gweithgor yn cyfarfod Nos Iau, Medi 20fed i arfarnu'r swydd trwy ddefnyddio'r templed cyn argymell y cyflog diwygiedig i'r Cyngor yn Hydref.
ii) Fod y Cyngor yn gofyn i'r gweithgor edrych ar oriau gwaith a lwfans y Rheolwr yn ei gyfarfod nesaf

Resolved to accept the Working Groups recommendation as follows

i) That the Council accepts that the Working Group, in its next meeting on Thursday September 20th, will be carrying out an appraisal of the duties by using the template before recommending to the revised salary to the Council in October.

ii) That the Council asks the Working Group to review the working hours and allowance of the manager.

18-09-20 **8 Archwiliad Cyfrifon 2017-17**

Adroddwyd gan y Clerc nad oedd y datganiad blynyddol 2018-19 wedi ei ddychwelyd gan yr Archwiliwr Allanol.

Mae'r Clerc wedi cysylltu gyda Swyddfa BDO/LLP. Deallir nad oes unrhyw faterion wedi codi gyda chyfrifon y Cyngor eleni.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth gan ddisgwyl llythyr yr Archwilydd Allanol gyda'r Datganiad Blynyddol wedi ei arwyddo erbyn 30 Medi 2018
Resolved – to accept the information but to wait the Auditors Report and the signed Annual Statement by 30 September 2018

18-09-21 **9 Gwasanaeth Bws 1F– Carmel/Fron/ Rhosgadfan- Bysus Huw**

Nodwyd gan y Clerc fod yr Arolygydd Trafnidiaeth dros Gymru wedi diddymu trwydded bysus Huw o 2ail Medi 2018.
Da oedd adrodd fod Cyngor Gwynedd wedi sicrhau parhad y gwasanaeth. Bysus Gwynfor sydd rŵan yn rhedeg y gwasanaeth, dros dro.
'Roedd yr aelodau yn gwerthfawrogi ac yn diolch i Uned Cludiant Gyngor Gwynedd am sicrhau parhad esmwyth yn y gwasanaeth.

Dywedodd EW fod y gwasanaeth newydd gan bysus Gwynfor wedi gwella yn erbyn y gwasanaeth blaenorol oherwydd fod y bysus o well safon.

Penderfynwyd ysgrifennu gair o ddiolch i Uned Cludiant Cyngor Gwynedd am sicrhau parhad yn y gwasanaeth.
Resolved – to write to the Transport Department of Gwynedd Counci to thank them for their work in securing the service without any disruption.

Dywedodd EW fod defnyddwyr y bysus (Gwasanaeth 1F) yn awyddus i dderbyn mwy o wasanaethau dyddiol i'r dre. Awgrymwyd gofyn i Gyngor Gwynedd i ail-gyfeirio taith bws sydd yn cyrraedd Nantlle am oddeutu 9.30 y bore. Awgrymir i'r bws hwnnw, yn ei daith o Nantlle, gylchu i fynnu i Carmel a'r Fron cyn dychwelyd ar ei daith i'r dre lawr trwy'r Groeslon. Ar fore Sadwrn yr unig fws a ddarperir yng nghanol y bore yw bws 11.30. Mae'r bws wastad yn orlawn gyda theithwyr yn sefyll ar y daith. Byddai cylchu bws Nantlle 9.30 y bore i Carmel a Fron yn welliant mawr ar gwasanaeth presennol ac yn lliniaru'r pwysau ar y bws 11.30.

Penderfynwyd cefnogi awgrym a chysylltu gydag Uned Cludiant Cyngor Gwynedd.
Resolved – to support the suggestion and to ask the Transport Department of Gwynedd Council ive it consideration

---

18-09-22 **10 Materion a Godwyd gan Aelodau**

Cyng. Alun Wyn Jones a Cyng. Gerwyn Owen

18-09-23 **Llifogydd y Groeslon -Ffoes Brynrhos lawr i Dyffryn Teras.**

Mater a godwyd gan Cyng. Gerwyn Owen a Cyng. Alun Wyn Jones

Adroddwyd gan GO fod gan drigolion Cae Sarn pryderon mawr ynglŷn â'r ffoes. Rhai o drigolion Cae Sarn wedi cael costau sylweddol i ymdrin â'r gwaith o atal llifogydd yng nghefnau'r tai. Nodwyd ganddo fod Swyddogion Cyngor Gwynedd (Malcolm Owens) wedi ymweld â'r safle.

MO yn cytuno fod angen cyflawni gwaith yma, ond dim arian. Bydd rhaid ceisio am gyllid drwy gyflwyno grantiau i Lywodraeth Cymru. Trigolion Cae Sarn ddim yn fodlon gyda'r ymateb. Ofni y bydd llifogydd yn digwydd eto. Pryderon nad yw y ffoes lawr o Gapel Brynrhos lawr at Deras Dyffryn yn cael ei gynnal. AWJ yn adrodd fod y ffoes wedi ei gau mewn mannau. Ffoes ar dir preifat mewn manau. Angen gwaith clirio brys arno i sicrhau fod dŵr yn llifo yn rhwydd cyn mynd dan y ffordd ac i lawr cefn Cae Sarn. GO o'r farn fod angen cyfarfod ar y safle gyda Swyddogion y Cyngor Sir, Eric Jones y Cynghorydd Sir a'r asiantaethau eraill sydd yn gyfrifol am y ffoes a'r draeniau.

Sylwadau Aelodau-
DCD – o'r farn y dylai'r Cyngor Cymuned ystyried cyflawni'r gwaith o glirio'r ffoes.
AWJ - rhaid i'r Cyngor hwn fod yn wyliadwrus cyn cymryd y cyfrifoldeb.
HJO - onid Cyfoeth Naturiol Cymru ddylai clirio'r ffoes?
CB - yn cytuno gyda HJO ac awgrymu ysgrifennu at CNC gan ofyn iddynt gyflawni'r gwaith

Penderfynwyd ar y canlynol-

i) Fod y Cyngor yn cysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru gan ofyn iddynt gyflawni'r gwaith o glirio'r ffoes a rhoi gwybod iddynt o pryderon y Cyngor am y sefyllfa

ii) Fod copïau o'r llythyr yn cael ei anfon at Siân Gwenllïan AC a Hywel Williams AS a Chynghorydd Eric Jones.

iii) Fod y Cyngor yn codi'r mater eto yn Hydref ac ystyried ymateb CNC

The following was resolved –

i) That the Council contacts Natural Recources Wales asking if they have responsibility to maintain the ditch

ii) For a copy of the letter to be sent to Sian Gwenllian AC and Hywel Williams MP and Cllr Eric Jones

iii) For the Council to discuss the matter in the October meeting and consider NRW response

Cyng. Eddie Willcox

18-09-24 **Diffyg Parcio, Y Fron**

Cwynion gan drigolion y Fron am ddiffyg parcio yng nghanol y pentref. Dim lle i barcio o flaen safle'r hen gapel bellach.
Yn awgrymu gellir defnyddio'r llecyn tir o flaen y byngalos Cae Fron
Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) sydd berchen y tir.
Gofyn am gefnogaeth y Cyngor i anfon at CCG gan ofyn a fyddant yn fodlon trosi'r llecyn i safle parcio.
Penderfynwyd cefnogi'r cais
Resolved – to support the request

18-09-25 **Llwybr Mynydd o Fron i Carmel.**

Cwynion fod baw cwn ar y llwybr.
Penderfynwyd dod a'r mater i sylw Warden Cwn Cyngor Gwynedd.
Resolved – to bring the matter to the attention of the Dog Warden

18-09-26 **Gwefan y Cyngor**

Yn awgrymu gellir gwella'r gwefan trwy gynnwys o'r penderfyniadau ar y gwefan heb orfod darllen y cofnodion llawn.

HJO – golygu gwaith ychwanegol i gasglu'r wybodaeth. Mater o farn unigolion ydi beth sydd yn bwysig.

Penderfynwyd cyfeirio'r mater i'r Panel Ymgysylltu

Resolved – to refer the matter to the Consulting Panel

18-09-27 **11 Arolwg ar Ddyfodol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru.**

Derbyniwyd adroddiad gan y Cadeirydd yn dilyn ei gyfarfod yn Llandrindod ar 15 fed o Awst 2018.

Dosbarthwyd copi o adroddiad y Cadeirydd i bob aelod.

Aeth y Cadeirydd trwy'r adroddiad gan nodi-

- Adolygu ffiniau - angen i'r prif gynghorau edrych ar y ffiniau a'u newid os oes angen
- Cyfrifoldebau - mwy o gyfrifoldebau am drosglwyddo
- Ymgysylltu - yn holl bwysig, i fod yn broses parhaus
- Cymhwyster Clerc – bydd clercod yn gorfod cal cymhwyster. Creu pwl o glercod
- Fforwm – un pwynt cyswllt gyda'r prif gyngor
- Cyllid - disgwyl i gynghorau codi'r praesept, ond fod sail iddo trwy ymgysylltu.

Bydd y Clerc yn mynychu cynhadledd flynyddol Un Llais ar 20 Medi, yn Llanelwedd. Nydd Alun Davies AC yno yn trafod rolau a swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a nodi'r cynnwys

Resolved – to accept and note the information

Gohebiaeth / Communication Received

18-09-28 **12 Un Llais Cymru / One Voice Wales**

Derbyniwyd y canlynol gan Un Llais –

- Rhaglen Pwyllgor Arfon Dwyfor 12 Medi 2018
- Cofnodion cyfarfod 12 Mehefin 2018

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth heb sylwadau

Resolved – to accept the information without comments

18-09-29 **13 Adran Cynllunio – Ffordd Gwynedd.**

Trafodwyd y mater fel y nodwyd ar y rhaglen.

Sylwadau Aelodau –

AWJ - diffyg ymateb gan yr Adran Gorfodaeth ar geisiadau cynllunio sydd yn torri amodau. Yn gofyn lle mae'r trefniadau monitro a gorfodaeth?

Penderfynwyd ymateb i gais Cyngor Gwynedd trwy gynnwys y sylwad uchod.

Resolved – to include the comments made by the member in the Councils reply

---

18-09-30 **14 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications - Medi 2018 / September 2018**

18-09-31

Cais Rhif / Application Number **- C18/0634/17/LL**

Cyfeiriad / Address - **Cae Goronwy, Llandwrog Uchaf, LL54 7PU**
Bwriad / Proposal - **Cais diwygiedig i'r hyn a wrthodwyd o dan C18/0398/17/LL**
Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad
Council Decision – no objection

18-09-32
Cais Rhif / Application Number - **C18/0799/17/CR**
Cyfeiriad / Address - **Coleg Glynllifon, Llandwrog, LL54 5DY**
Bwriad / Proposal - **Dymchwel sied bresennol er creu darpariaeth parcio a chodi 2 sied fach newydd**
Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad
Council Decision – no objection

18-09-33
Cais Rhif / Application Number - **C18/0789/17/LL**
Cyfeiriad / Address - **cae o/s 7279 Cefn Eithin, Bethesda Bach LL54 5SF**
Bwriad / Proposal - **Creu mynediad newydd i gerbydau / New access for vehicles**
Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad
Council Decision – no objection

Materion Ariannol / Financial Matters

18-09-34 **15 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Gorffennaf ac Awst 2018 – Income Received July & August 2018**

Manylion / Details	Cyfanswm
Cyngor Gwynedd - Praesept Rhan 2 / Part 2	(£24,000.00)
HMRC – Ad-daliad TAW / Repayment of VAT	(£2,793.37)
Roberts ac Owen – Ffi Claddu / Burial Fees	(£315.00)

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth .
Resolved to accept the information

18-09-35 **16 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved**

Manylion / Details	Swm heb TAW Amount excluding VAT	Cyfanswm y Taliad- Total Payment	Rhif Siec/ Cheque Number
Cyflog y Clerc – Awst 2018 – Clerks Salary August 2018	£429.51	£429.51	Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Awst 2018– Income Tax August 2018	£113.40	£113.40	Uniongyrchol/Direct
Lwfans Clerc– Awst 2018– Clerks Allowance August 2018	£24.00	£24.00	Uniongyrchol/Direct
Cyflog y Clerc – Medi 2018 – Clerks Salary Sept 2018	£429.51	£429.51	Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Medi 2018– Income Tax Sept 2018	£113.40	£113.40	Uniongyrchol/Direct
Lwfans Clerc– Medi 2018– Clerks Allowance Sept 2018	£24.00	£24.00	Uniongyrchol/Direct
Designer Signs, Penygroes – Arwyddion Cae Chwarae / Signs	£261.50	£313.80	101832
GDPR – Ffi Cofrestru / Registration Fee	£40.00	£40.00	101833
Zurich – Yswiriant y Cyngor / Council Insurance	£1,233.43	£1,233.43	101831
Cyngor Gwynedd - Cyfraniad at Toiled y Marine 2018-19	£4,000.00	£4,000.00	101830
Costau Teithio – Cyfarfod yn Llandindod – Travel Costs	£94.50	£94.50	101834
Microsoft – Trwydded "Office" Licence	£59.99	£59.99	101835
Huw Roberts - Cyfieithu Mis Medi / september translation	£54.00	£54.00	101836

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a rhoddwyd yr awdurdod i'r Clerc i ryddhau'r oll daliadau.
Resolved to accept the information and to authorise the Clerk to relaease all the payments

---

18-09-36 **17 Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn / matters to be raised by Members for the Next Meeting (15 Hydref 2018 / 15 October 2018)**

18-09-37 **18 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf / *Dates of Next Meetings***

Cyfarfod / Meeting – **Cyngor Llawn Mis Hydref / October Full council**
Dyddiad / Date - Dydd Llun 15 Hydref 2018 / Monday 15 October 2018
Amser / Time - 7.30 yr hwyr
Lleoliad / Venue Neuadd – Canolfan y Fron – i'w gadarnhau / to be confirmed

Cyfarfod / Meeting **– Gweithgor y Clerc / Clerks Panel**
Dyddiad / Date - Nos Iau 20 Hydref - Thursday 20 October
Amser / Time 7pm
Lleoliad / Venue – Neuadd Pentref Carmel

Cyfarfod / Meeting – **Panel Ymgysylltu / Consulting Panel**
Dyddiad / Date - 26 Medi – 26 September
Amser / Time 7 pm
Lleoliad / Venue -

Cyfarfod / Meeting – **Pwyllgor Cyllid/ Finance Committeel**
Dyddiad / Date – i'w gadarnhau/ to be confirmed
Amser / Time -
Lleoliad / Venue –

Cyfarfod / Meeting – **Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo./ Cemeteries & Property Committee**
Dyddiad / Date - i'w gadarnhau/ to be confirmed
Amser / Time -
Lleoliad / Venue –

Daeth y cyfarfod i ben am 9.05 yr hwyr / The meeting ended 9:05 pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor **Signed by the Chairmam**	
Dyddiad - Date	